



Judith Paget  
Prif Weithredwr  
Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan  
Grange House  
Llanfrechfa, Cwmbran, NP44 8YN

Cambrian Buildings  
Mount Stuart Square  
Cardiff CF10 5FL

Adeiladau Cambrian  
Sqwâr Mount Stuart  
Caerdydd CF10 5FL

10 Awst 2015

Annwyl Mrs Paget

### **Adolygiad o Gartrefi Gofal: Dadansoddiad o'ch ymateb terfynol**

Rwy'n ysgrifennu i ddiolch i chi am roi ymateb terfynol i'm Hanghenion Gweithredu, sef ymateb yr wyf wedi cael cyfle i'w ddadansoddi bellach.

Wrth ddadansoddi'r ymateb a ddaeth i law, roeddwn i'n chwilio am sicrwydd, drwy'r wybodaeth a roddwyd a thrwy'r camau a oedd ar eu hanner neu yn yr arfaeth, y bydd fy Anghenion Gweithredu'n cael eu rhoi ar waith ac y bydd y canlyniadau arfaethedig yn cael eu cyflawni ar ran pobl hŷn.

Mae'n glir bod eich ymateb yn dangos ymrwymiad i gyflawni'r newid angenrheidiol a amlinellais yn fy Adolygiad o Gartrefi Gofal ac mae'n manylu'n glir ar gamau rydych chi wedi'u cymryd neu y byddwch yn eu cymryd er mwyn cyflawni'r canlyniadau arfaethedig.

Rwy'n arbennig o falch bod eich sefydliad wedi dangos ymrwymiad clir i wella'i gynllun er mwyn cyflawni newid a'i fod wedi rhoi croeso agored i'r adborth adeiladol a gynigiais ac wedi dysgu ohono. Mae hyn wedi arwain at welliant clir ar y casgliadau cychwynnol a wnes i'n gynharach eleni, ac mae'ch holl ymatebion i'm Hanghenion Gweithredu wedi'u dadansoddi bellach fel ymatebion 'derbyniol'. Mae'n dda hefyd eich bod wedi manylu ar y gweithdrefnau adolygu a chlориannu sydd gennych er mwyn rhoi sicrwydd ar lefel uchel yn eich sefydliad y bydd y canlyniadau angenrheidiol yn cael eu cyflawni.

Mae defnyddio datganiad sefyllfa ynglŷn â'r ddarpariaeth gyfredol ochr yn ochr â chynllun gweithredu yn dangos ymwybyddiaeth o ble mae'r

sefydliad nawr a sut y caiff newid ei gyflawni. Mae'ch sefydliad wedi cynnig mynd ati i ddatblygu gwasanaethau neu brosesau newydd sydd â'r potensial i symud ymlaen fel arferion gorau. Er enghraifft, rwy'n croesawu'r ffaith eich bod yn cynnal cynllun peilot i wirfoddolwyr ac eiriolwyr a fydd yn helpu pobl hŷn sy'n symud o'r ysbyty i gartref gofal (Angen Gweithredu 6.2); hefyd, y byddwch yn datblygu fframwaith a fydd yn galluogi'r darparwyr i gasglu dangosyddion ansawdd bywyd i bobl hŷn sy'n byw yn eu cartrefi gofal a chyflwyno adroddiadau arny'n nhw (Angen Gweithredu 6.8).

Gan hynny, rwy'n fodlon bod eich sefydliad eisoes yn cydymffurfio â'm Hanghenion Gweithredu neu wedi ymrwymo i gymryd y camau angenrheidiol i gyflawni'r newid angenrheidiol.

Mae dadansoddiad manwl wedi'i atodi o'r wybodaeth ychwanegol a roesoch mewn ymateb i'm cais.

Fel y gwyddoch, o dan Ddeddf Comisiynydd Pobl Hŷn (Cymru) 2006 mae'n ofynnol imi gadw cofrestr o'r ymatebion i'm Hanghenion Gweithredu ac felly bydd yr holl ymatebion gan y cyrff sy'n dod o dan fy Adolygiad yn cael eu cyhoeddi ar fy ngwefan ynghyd â'r dadansoddiad o bob ymateb.

Fel y dywedais yn barod, byddaf yn cyhoeddi sylwebaeth gyffredinol ynghylch a ydw i'n credu y bydd y newid yr wyf yn disgwyl ei weld ar ran pobl hŷn yn cael ei wireddu ledled Cymru ac rwy'n bwriadu gwneud datganiad cyhoeddus ffurfiol am hyn ac am y camau y mae'r cyrff unigol sy'n dod o dan yr adolygiad yn bwriadu eu cymryd. Caiff y datganiadau hyn eu gwneud ar 11 Awst.

Dwy ddim yn bwriadu gofyn am ddiweddariad manwl am yr holl gamau sydd gennych ar y gweill, oherwydd lefel y sicrwydd a'r ymrwymiad rydych chi wedi'u dangos wrth sicrhau'r canlyniadau hyn. Gan hynny, rwy'n bwriadu cynnal adolygiad dilynol ymhen 18 mis, pryd y byddaf yn chwilio am dystiolaeth bendant bod y canlyniadau hyn wedi'u cyflawni'n gyson ar draws cartrefi gofal eich ardal (bod eich camau chi wedi'u cwblhau). Yn nes ymlaen, byddaf yn rhoi gwybod ichi am hyd a lled yr adolygiad a'r dull y byddaf yn ei ddefnyddio.

Er hynny, mae yna nifer o feysydd y bydd arna i angen diweddariad a sicrwydd yn eu cylch yn y cyfamser ac fe fyddaf yn ysgrifennu atoch ar wahân ynglŷn â'r rhain a sut y byddaf yn gofyn ichi wneud hyn.

Rwy'n edrych ymlaen at barhau i gydweithio â chi i sicrhau bod gan bobl hŷn sy'n byw mewn cartrefi gofal yng Nghymru yr ansawdd bywyd gorau posibl a'r safonau gofal uchaf.

Yn gywir

A handwritten signature in black ink that reads "Sarah Rochira". The signature is written in a cursive style with a long, sweeping tail on the final letter.

**Sarah Rochira**  
**Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru**

## **Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan**

Mae'r Bwrdd Iechyd yn llwyr dderbyn y casgliadau cychwynnol a wnes i pan gyflwynodd y Bwrdd Iechyd ei ymateb cychwynnol i'r Anghenion Gweithredu perthnasol yn 'Lle i'w Alw'n Gartref?'. Rwy'n croesawu'r ffaith bod y Bwrdd Iechyd wedi cyflwyno datganiad sefyllfa ar y ddarpariaeth bresennol a chynllun gweithredu ochr yn ochr â hyn. Er mwyn bwrw ymlaen â'r cynllun gweithredu yma, caiff yr Anghenion Gweithredu eu hymgorffori mewn rhaglen waith flynyddol a fydd yn cael ei monitro gan y Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch. Byddwn yn disgwyl, wrth i'r rhaglen yma o waith ddatblygu, fe fydd cofnodi cyson yn digwydd trwy'r trefniadau hyn, neu sianel priodol arall, i'r Bwrdd Iechyd ac i'r cyhoedd. Ar ben hynny, rwy'n croesawu'r ffaith y bydd y Bwrdd Iechyd yn adrodd ar y cynnydd cyffredinol yn ei Ddatganiad Ansawdd Blynyddol.

### **Angen Gweithredu 1.3**

#### **Casgliad Terfynol - Derbyniol**

1.3 Dylai cefnogaeth ymataliaeth arbenigol fod ar gael i bob cartref gofal er mwyn cefnogi arferion gorau o ran gofal ymataliaeth, a hynny'n seiliedig ar ganllawiau cenedlaethol eglur o ran defnyddio cymhorthion ymataliaeth ac urddas.

Mae yna nifer o ymrwymadau cadarnhaol y mae'r Bwrdd Iechyd wedi'u gwneud a champau cadarnhaol y bydd yn eu cymryd a ddylai alluogi'r Bwrdd Iechyd i wella'i ddealltwriaeth o'r ddarpariaeth bresennol o wasanaethau cymorth ymataliaeth arbenigol mewn cartrefi gofal. Rwy'n croesawu'r ffaith bod gan yr ymrwymadau a'r camau yma, yn eu tro, y potensial i wella cymorth i bobl hyn i gynnal eu hymataliaeth a pharhau i ddefnyddio'r toiled yn annibynnol.

Er enghraifft, mae'r Bwrdd Iechyd yn ymrwymo i gynnal ymarfer cwmpasu o'r gwasanaethau presennol, ac i gymryd y camau angenrheidiol i wella'r gwasanaeth. Mae'r ymateb yn ymrwymo i ail-ddylunio gwasanaethau

gofal ymataliaeth, i weithio'n agos gyda chartrefi gofal er mwyn penderfynu ar lefel yr hyfforddiant a'r gefnogaeth y mae arnyn nhw ei hangen ac i adolygu'r cymorth ymataliaeth y maen nhw'n ei ddarparu o'i gymharu â'r canllawiau cenedlaethol.

Codais bryder mewn perthynas ag ymateb cychwynnol y Bwrdd Iechyd i'r Angen Gweithredu yma, sef nad oedd yna gyfeiriad at ddefnyddio'r arferion gorau. Rwy'n falch bod y Bwrdd Iechyd wedi ymateb yn uniongyrchol i'r pryder yma, ac wedi datgan bod seminarau a hyfforddiant ar yr arferion gorau wedi'u darparu yn y fforymau i fetronau a darparwyr. Mae gan hyn y potensial i yrru newid mewn gofal ymataliaeth ar draws y sector cyfan yn y rhanbarth, ac nid mewn pocedi'n unig.

Mae'r ymateb yn cynnwys amserlenni clir ar gyfer cwblhau'r camau a nodwyd, ac mae hefyd yn enwi unigolyn atebol i gyd-fynd â llwybr llywodraethu clir. Dylai eglurder y dull hwn ganiatáu i ansawdd ac effaith y gwasanaethau hyn, ac unrhyw newidiadau a wneir iddyn nhw, gael eu monitro'n ofalus gan y Bwrdd Iechyd.

## **Angen Gweithredu 1.6**

### **Casgliad Terfynol - Derbyniol**

1.6 Cynigir eiriolaeth annibynnol i bobl hŷn o dan yr amgylchiadau canlynol:

- pan fo pobl hŷn mewn perygl, neu yn dioddef camdriniaeth gorfforol, emosiynol, ariannol neu rywiol.
- lle mae cartref gofal yn cau neu berson hŷn yn symud oherwydd bod eu hanghenion gofal wedi newid.
- pan fo person hŷn angen cymorth i'w helpu i adael yr ysbyty.

Yn achos y rhai sydd â chapasiti anwadal neu anawsterau cyfathrebu, dylai hwn fod yn eiriolaeth na chyfarwyddir.

Pan fo pryderon cynyddol ynglŷn â chartref gofal, mae'n rhaid i breswylwyr gael mynediad i eiriolaeth na chyfarwyddir.

Codais bryder mewn perthynas ag ymateb cychwynnol y Bwrdd Iechyd i'r Angen Gweithredu yma, sef nad oedd gwybodaeth am y nifer oedd yn derbyn eiriolaeth ac a ydy'r lefelau cyllido presennol yn ddigonol. Heb yr wybodaeth yma, dydy hi ddim yn bosibl deall a ydy pobl hŷn yn gallu cael mynediad gwirioneddol i eiriolaeth annibynnol fel bod modd diogelu eu hawliau a delio â'u pryderon.

Mae yna nifer o gamau cadarnhaol y mae'r Bwrdd Iechyd wedi ymrwymo iddyn nhw er mwyn gwella mynediad pobl hŷn mewn cartrefi gofal i eiriolaeth ac i ddelio â'm pryderon blaenorol. Er enghraifft, mae'r rhain yn cynnwys darparu hyfforddiant ychwanegol i staff cartrefi gofal i'w helpu i adnabod yr angen am eiriolaeth a chynllun clir i fesur a ydy'r ddarpariaeth a'r cyllid presennol yn ddigonol i ateb anghenion lleol.

Ar ben hynny rwy'n croesawu'r ffaith bod y Bwrdd Iechyd wedi ymrwymo i adolygu ei brosesau a'i brotocolau i sicrhau bod y gofyniad am eiriolaeth yn glir mewn amgylchiadau neilltuol, er enghraifft yn ystod cyfnod pontio neu tra bo cartref o dan Bryderon Cynyddol. Mae gan hyn y potensial i helpu pobl hŷn i sicrhau eu hawliau, sicrhau bod eu lleisiau'n cael eu clywed a bod eu pryderon yn cael sylw mewn sefyllfaoedd lle y gallen nhw fod yn agored i niwed.

Mae'r ymateb yn cynnwys amserlenni clir ar gyfer cwblhau'r camau a nodwyd, ac mae hefyd yn enwi unigolyn atebol i gyd-fynd â llwybr llywodraethu clir. Dylai eglurder y dull hwn ganiatáu i ansawdd ac effaith y gwasanaethau hyn, ac unrhyw newidiadau a wneir iddyn nhw, gael eu monitro'n ofalus gan y Bwrdd Iechyd.

## **Angen Gweithredu 2.2**

### **Casgliad Terfynol - Derbyniol**

2.2 Mae gan bobl hŷn fynediad i wasanaethau arbenigol a, phan fo hynny'n briodol, i ofal amlddisgyblaethol a ddyluniwyd i gefnogi adsefydlu yn dilyn cyfnod o afiechyd.

Rwy'n croesawu'r ffaith bod ymateb y Bwrdd Iechyd i'r Angen Gweithredu yma yn darparu trosolwg o'r amrediad o ofal amlddisgyblaeth a gwasanaethau arbenigol a ddarperir ar hyn o bryd.

Codais bryder mewn perthynas ag ymateb cychwynnol y Bwrdd Iechyd i'r Angen Gweithredu yma, sef bod angen i'r Bwrdd Iechyd ddangos parodrwydd cliriach i ddatblygu gwasanaethau newydd yn rhyngweithiol, trwy ymgynghori'n agored, i ateb yr angen yn ei ranbarth. Heb yr ymrwymiad rhagweithiol yma, gallai pobl hŷn ddiodefllai o symudedd, eiddilwch cynyddol a cholli annibyniaeth.

Mewn ymateb, mae'r Bwrdd Iechyd yn dangos ymwybyddiaeth o ble y gall fod yna wendidau presennol mewn darpariaeth gofal amlddisgyblaeth a gwasanaethau arbenigol. Rwy'n croesawu'r ffaith bod y Bwrdd Iechyd wedi ymrwymo i adolygu ei ddarpariaeth i sicrhau y gall y capasiti presennol ateb y galw. Er enghraifft, mae'r Bwrdd Iechyd yn ymrwymo i gwmpasu'r ddarpariaeth fewngymorth bresennol i gartrefi gofal dros y pedwar mis nesaf, gyda golwg ar wella neu ddatblygu ymhellach ar y gwasanaethau mewngymorth os oes angen, ac mae'n cynnal archwiliad o'r niferoedd uchel o dderbyniadau i ysbytai o un cartref nyrsio er mwyn llywio'r angen am ragor o wasanaethau lleol ar draws cartrefi nyrsio. Mae'r ymateb hefyd yn datgan y bydd y Bwrdd Iechyd yn ystyried ail-ddylunio gwasanaethau ac yn datblygu achos busnes i wella mynediad i'r gwasanaethau amlddisgyblaeth ac arbenigol yma.

Rwy'n croesawu'r ffaith y bydd yr ymrwymadau a'r camau yma yn galluogi'r Bwrdd Iechyd i ddeall yn well yr angen am wasanaethau o'r fath, ac yn ei dro, yn dod â'r potensial i ddarparu cefnogaeth lawn i bobl hŷn yn dilyn cyfnod o salwch sylweddol, i'w galluogi i gynyddu eu hannibyniaeth a'u hansawdd bywyd i'r eithaf.

Mae'r ymateb yn cynnwys amserlenni clir ar gyfer cwblhau'r camau a nodwyd, ac mae hefyd yn enwi unigolyn atebol i gyd-fynd â llwybr llywodraethu clir. Dylai eglurder y dull hwn ganiatáu i ansawdd ac effaith y gwasanaethau hyn, ac unrhyw newidiadau a wneir iddyn nhw, gael eu monitro'n ofalus gan y Bwrdd Iechyd.

## Angen Gweithredu 3.4

### Casgliad Terfynol - Derbyniol

3.4 Datblygu cefnogaeth iechyd meddwl a lles arbenigol amlddisgyblaethol, mewngymorth ar gyfer pobl hŷn mewn cartrefi gofal, a sicrhau ei fod ar gael, yn cynnwys:

- Asesu iechyd meddwl a lles pobl hŷn fel rhan o'u gofal cychwynnol ac asesu datblygiad eu cynllun cefnogaeth a chynllunio eu gofal parhaus.
- Cyngor a chefnogaeth i staff gofal ynghylch sut i ofalu'n effeithiol am bobl hŷn ag anghenion lles meddyliol ac iechyd meddyliol, yn cynnwys dementia, a phryd i atgyfeirio.
- Llwybrau atgyfeirio amlwg a meini prawf ar gyfer atgyfeirio.
- Mae'r holl breswylwyr sydd yn cymryd cyffuriau gwrthseicotig yn cael eu monitro a'u hasesu ar gyfer y posibilrwydd o ddiddyfnu, ac mae adolygiadau yn cael eu cynnal yn unol â chanllawiau NICE.

Rwy'n croesawu'r ffaith bod ymateb y Bwrdd Iechyd i'r Angen Gweithredu yma yn darparu gwybodaeth am yr amrediad o gefnogaeth mewngymorth, amlddisgyblaeth iechyd a llesiant meddyliol a ddarperir gan y Bwrdd Iechyd. Er enghraifft, mae'r ymateb yn manylu ar y defnydd o fferylllydd cartrefi gofal penodol, ei fecanweithiau cyfeirio a'r defnydd o adolygiadau cynlluniau gofal. Mae gan rôl fferylllydd cartrefi gofal penodol y potensial i leihau'r achosion o ddefnydd amhriodol ar gyffuriau gwrthseicotig.

Codais bryder mewn perthynas ag ymateb cychwynnol y Bwrdd Iechyd i'r Angen Gweithredu yma, sef nad oedd camau rhagweithiol i'r Bwrdd Iechyd eu cymryd ac nad oedd asesiad i weld a oedd y ddarpariaeth gwasanaethau bresennol yn ateb anghenion pobl hŷn. Heb y rhain mae yna risg y gall y problemau iechyd meddwl parhaus y mae pobl hŷn yn eu dioddef danseilio'u hansawdd bywyd yn sylweddol.

Er nad ydy'r ymateb yn darparu gwybodaeth fanwl am ddigonolrwydd y ddarpariaeth ar hyn o bryd, rwy'n croesawu'r ymrwymiad gan y Bwrdd Iechyd i adolygu gwasanaethau iechyd meddwl mewngymorth a gweithredu i wella gwasanaethau os tybir bod hynny'n angenrheidiol.



Yn ychwanegol at hyn, mae yna nifer o gamau cadarnhaol clir – fel cynnwys hyfforddiant dementia fel rhan o gylch parhaus o ddatblygu proffesiynol a defnyddio astudiaeth beilot i benderfynu ar yr angen am fewnbwn seicolegol neilltuol i ofal preswyl.

Mae'r rhain yn gamau i'w croesawu tuag at sicrhau bod y Bwrdd Iechyd yn gallu deall anghenion iechyd a llesiant meddyliol pobl hŷn, a bod yr anghenion hyn yn cael eu nodi a'u hadlewyrchu yn y gofal a ddarperir mewn cartrefi gofal.

Mae'r ymateb yn cynnwys amserlenni clir ar gyfer cwblhau'r camau a nodwyd, ac mae hefyd yn enwi unigolyn atebol i gyd-fynd â llwybr llywodraethu clir. Dylai eglurder y dull hwn ganiatáu i ansawdd ac effaith y gwasanaethau hyn, ac unrhyw newidiadau a wneir iddyn nhw, gael eu monitro'n ofalus gan y Bwrdd Iechyd.

### **Angen Gweithredu 3.5**

#### **Casgliad Terfynol - Derbyniol**

3.5 Mae gwybodaeth yn cael ei gyhoeddi'n flynyddol ynghylch defnyddio cyffuriau gwrthseicotig yn unol â chanllawiau NICE a Thargedau Deallus ar Gyfer Dementia Llywodraeth Cymru.

Mae yna nifer o ymrwymadau cadarnhaol y mae'r Bwrdd Iechyd wedi'u gwneud a champau cadarnhaol y bydd yn eu cymryd a ddylai alluogi'r Bwrdd Iechyd i gyhoeddi gwybodaeth yn flynyddol ynghylch defnyddio cyffuriau gwrthseicotig mewn cartrefi gofal. Er enghraifft, mae'r Bwrdd Iechyd wedi ymrwymo i weithio gyda darparwyr a Fforwm Gofal Cymru i ddatblygu offeryn monitro priodol, ac i gytuno ar fformat ar gyfer adroddiadau blynyddol am ddefnyddio cyffuriau gwrthseicotig mewn cartrefi gofal. Mae'n dda gweld hyn, yn ogystal â'r ymrwymiad i'r fferylllydd cartrefi gofal lunio adroddiad interim ar y defnydd presennol ar gyffuriau gwrthseicotig mewn cartrefi gofal erbyn Medi 2015. Gallai'r camau hyn helpu pawb i fod yn fwy agored a thryloyw, ac efallai lleihau'r defnydd amhriodol ar gyffuriau gwrthseicotig.

Mae'r ymateb yn cynnwys amserlenni clir ar gyfer cwblhau'r camau a nodwyd, ac mae hefyd yn enwi unigolyn atebol i gyd-fynd â llwybr llywodraethu clir. Dylai eglurder y dull hwn ganiatáu i ansawdd ac effaith y gwasanaethau hyn, ac unrhyw newidiadau a wneir iddyn nhw, gael eu monitro'n ofalus gan y Bwrdd Iechyd.

## **Angen Gweithredu 4.2**

### **Casgliad Terfynol - Derbyniol**

4.2 Mae cytundeb ffurfiol yn cael ei ddatblygu a'i weithredu rhwng y cartref gofal a gwasanaethau gofal sylfaenol ac arbenigol yn seiliedig ar y Datganiad o Hawliau. Dylai hyn gynnwys:

- Llwybrau atgyfeirio, yn cynnwys mynediad agored
- Amseroedd aros
- Gwybodaeth am atgyfeirio a rhyddhau
- Cyngor a gwybodaeth i gefnogi gofal parhaus y person hŷn yn y cartref.
- Mynediad i wasanaethau arbenigol i bobl hŷn mewn cartrefi nyrsio yn unol â'r Canllawiau Hanfodion Gofal.

Barnwyd o'r blaen fod ymateb y fenter gydweithredol i'r Angen Gweithredu hwn yn dderbyniol. Gan hynny, does dim rhagor o ddadansoddi wedi bod.

## **Angen Gweithredu 4.3**

### **Casgliad Terfynol – Derbyniol**

4.3 Darperir gwybodaeth, cyngor a hyfforddiant pan fo'n briodol i staff gofal er mwyn sicrhau eu bod yn deall ac yn adnabod anghenion iechyd pobl hŷn yn ogystal â phryd a sut i atgyfeirio.

Mae yna nifer o ymrwymadau cadarnhaol y mae'r Bwrdd Iechyd wedi'u gwneud a champau y bydd yn eu cymryd a ddylai alluogi'r Bwrdd Iechyd i

gefnogi staff cartrefi gofal yn well i ddeall anghenion iechyd pobl hŷn, a phryd a sut i gael mynediad i ofal sylfaenol a gwasanaethau arbenigol.

Er enghraifft, mae'r Bwrdd Iechyd wedi ymrwymo i gynnal arolwg o staff cartrefi gofal, erbyn Medi 2015, i ddeall yn well beth ydy anghenion hyfforddi staff nyrsio ac mae wedi ymrwymo i weithio gydag Awdurdodau Lleol a chartrefi gofal i benderfynu sut y gellir gwneud y mwyaf o gyfleoedd i staff cartrefi gofal gael mynediad i hyfforddiant. Mae gan y ddau y potensial i nodi gwybodaeth, cyngor a hyfforddiant priodol a darparu'r rhain i'r staff. Rwyf hefyd yn croesawu cynnwys cam syml a allai wella'r ymwybyddiaeth o'r gwasanaethau sydd ar gael yn fawr iawn a sut y gall staff cartrefi gofal gael mynediad i'r rhain trwy ddatblygu'r cyfeirlyfr gwasanaethau presennol.

Mae'r ymateb yn cynnwys amserlenni clir ar gyfer cwblhau'r camau a nodwyd, ac mae hefyd yn enwi unigolyn atebol i gyd-fynd â llwybr llywodraethu clir. Dylai eglurder y dull hwn ganiatáu i ansawdd ac effaith y gwasanaethau hyn, ac unrhyw newidiadau a wneir iddyn nhw, gael eu monitro'n ofalus gan y Bwrdd Iechyd.

## **Angen Gweithredu 4.4**

### **Casgliad Terfynol - Derbyniol**

4.4 Wrth gyrraedd cartref gofal, mae pobl hŷn yn derbyn adolygiadau o feddyginiaethau gan weithiwr proffesiynol clinigol gymwys, ac adolygiadau rheolaidd o feddyginiaethau'n cael eu cynnal yn unol â'r arferion gorau a gyhoeddwyd.

Rwy'n croesawu'r ffaith bod ymateb y Bwrdd Iechyd i'r Angen Gweithredu yma yn darparu trosolwg o'r ddarpariaeth ar gyfer adolygiadau meddyginiaethau i bobl hŷn mewn cartrefi gofal. Mae hyn yn cynnwys gwybodaeth ddefnyddiol ar rôl fferyllwyr cymunedol, ac mae hefyd yn amlinellu nifer o gamau cadarnhaol y mae'r Bwrdd Iechyd wedi'u cymryd. Er enghraifft, mae cartrefi nyrsio wedi derbyn hyfforddiant ychwanegol ar reoli meddyginiaethau ac mae protocol lleol ar gyfer adolygiadau meddyginiaethau wedi'i sefydlu gyda Meddygon Teulu. Mae gan y camau

yma y potensial i sicrhau bod pobl hŷn yn derbyn meddyginiaethau priodol a bod y risgiau sy'n gysylltiedig â chymryd nifer o feddyginiaethau yr un pryd yn cael eu deall a'u rheoli.

Mae'r wybodaeth y mae'r Bwrdd Iechyd wedi'i darparu ar adolygiadau meddyginiaethau yn canolbwyntio ar y ddarpariaeth mewn cartrefi nyrsio. I gydnabod anghenion mwyfwy cymhleth pobl hŷn mewn cartrefi gofal preswyl, heb ffocws cryf ar ddefnyddio ac adolygu meddyginiaethau mewn cartrefi gofal nyrsio a phreswyl, mae yna risg y bydd pobl hŷn yn parhau i wynebu'r risg o gydadwaith peryglus posibl rhwng nifer o feddyginiaethau. Felly, rwy'n croesawu'r gydnabyddiaeth gan y Bwrdd Iechyd fod angen cwrpasu cefnogaeth fferyllwyr ar draws pob lleoliad preswyl ac ymrwymiad i gefnogi cyllid ychwanegol os oes ei angen.

Mae'r ymateb yn cynnwys amserlenni clir ar gyfer cwblhau'r camau a nodwyd, ac mae hefyd yn enwi unigolyn atebol i gyd-fynd â llwybr llywodraethu clir. Dylai eglurder y dull hwn ganiatáu i ansawdd ac effaith y gwasanaethau hyn, ac unrhyw newidiadau a wneir iddyn nhw, gael eu monitro'n ofalus gan y Bwrdd Iechyd.

## **Angen Gweithredu 5.6**

### **Casgliad Terfynol - Derbyniol**

5.6 Sefydlu Cynllun Gwella Cenedlaethol er mwyn gwella cartrefi gofal ble mae Awdurdodau Lleol, Byrddau Iechyd ac AGGCC wedi nodi ffactorau risg sylweddol a/neu barhaus ynghylch yr ansawdd bywyd neu'r gofal a ddarperir i breswylwyr a/neu dorri hawliau dynol o bosibl.

Dylai'r tîm gwella cenedlaethol ddefnyddio rheolwyr cartrefi gofal profiadol, yn ogystal ag ymarferwyr eraill, er mwyn darparu cefnogaeth ddwys a thrawsffurfiol er mwyn codi safonau ansawdd bywyd a gofal i breswylwyr yn ogystal ag atal a lliniaru risgiau i ddiogelwch yn y dyfodol.

Dylai'r gwasanaeth hefyd ddatblygu ystod o adnoddau a deunyddiau hyfforddi er mwyn cynorthwyo cartrefi gofal sy'n dymuno gwella o ran hunanddatblygu a gwelliannau parhaus.

Barnwyd o'r blaen fod ymateb y fenter gydweithredol i'r Angen Gweithredu hwn yn dderbyniol. Gan hynny, does dim rhagor o ddadansoddi wedi bod.

## **Angen Gweithredu 6.2**

### **Casgliad Terfynol - Derbyniol**

6.2 Dylai darparwyr cartrefi gofal, comisiynwyr ac AGGCC ddatblygu ffyrdd anffurfiol a systematig o sicrhau eu bod yn deall ansawdd bywyd pobl hŷn yn well, drwy wrando arnynt yn uniongyrchol (nid drwy gwynion ffurfiol) a sicrhau y gweithredir ar y pryderon a leisir ganddynt.

Dylai adroddiadau blynyddol gael eu llunio ar sut mae adborth parhaus pobl hŷn wedi'i ddefnyddio i sbarduno gwelliant parhaus (gweler cam 6.10).

Rwy'n croesawu'r ffaith bod ymateb y Bwrdd Iechyd i'r Angen Gweithredu yma yn darparu gwybodaeth gynhwysfawr ar y camau y mae'r Bwrdd Iechyd yn eu cymryd er mwyn gwrandao ar leisiau pobl hŷn a defnyddio hynny i yrru gwelliant mewn ansawdd bywyd a gofal.

Mae'r Bwrdd Iechyd yn disgrifio gwaith ei wasanaeth 'Gofyn a Siarad mewn Cartrefi Gofal' mewn cartrefi nyrsio, ac yn datgan bod hyn yn cael ei gyflwyno'n raddol ym mhob cartref nyrsio yn yr ardal. Mae gwybodaeth wedi'i darparu hefyd ar raglen debyg sy'n cael ei chynnal mewn cartrefi preswyl. Mae'n dda gweld bod nifer o feysydd allweddol i'w gwella wedi'u nodi o ganlyniad i wrando ar leisiau pobl hŷn, a bod camau wedi'u cymryd o ganlyniad i hynny. Er enghraifft, mae'r Bwrdd Iechyd wedi ymrwymo i gynnal cynllun peilot i wirfoddolwyr ac eiriolwyr gefnogi pobl hŷn sy'n pontio o'r ysbyty i gartref gofal.

Mae gan y rhaglenni a'r camau yma y potensial i sicrhau bod gan gomisiynwyr, darparwyr ac arolygwyr ddealltwriaeth drylwyr o fywyd beunyddiol pobl hŷn sy'n byw mewn cartrefi gofal, a bod eu barn am eu gofal a'u hansawdd bywyd yn cael ei chasglu a'i rhannu'n rheolaidd a'i defnyddio i yrru gwelliant parhaus.

Codais bryder mewn perthynas ag ymateb cychwynnol y Bwrdd Iechyd i'r Angen Gweithredu yma, sef nad oedd gwybodaeth wedi'i darparu ar gynhyrchu adroddiad blynyddol i ddangos sut y mae adborth parhaus gan bobl hŷn wedi cael ei ddefnyddio i yrru gwelliant parhaus. Mae'n dda felly gweld bod y Bwrdd Iechyd, mewn ymateb i hyn, wedi ymrwymo i gynhyrchu adroddiad blynyddol a fydd yn cael ei gynnwys yn y Datganiad Ansawdd Blynyddol.

Mae'r ymateb yn cynnwys amserlenni clir ar gyfer cwblhau'r camau a nodwyd, ac mae hefyd yn enwi unigolyn atebol i gyd-fynd â llwybr llywodraethu clir. Dylai eglurder y dull hwn ganiatáu i ansawdd ac effaith y gwasanaethau hyn, ac unrhyw newidiadau a wneir iddyn nhw, gael eu monitro'n ofalus gan y Bwrdd Iechyd.

## **Angen Gweithredu 6.8**

### **Casgliad Terfynol - Derbyniol**

6.8 Mae Byrddau Iechyd yn cynnwys y wybodaeth ganlynol mewn perthynas ag ansawdd bywyd a gofal pobl hŷn mewn cartrefi gofal preswyl a nysio yn eu Datganiadau Ansawdd Blynyddol:

- defnydd amhriodol o gyffuriau gwrthseicotig
- mynediad i gefnogaeth iechyd meddwl a lles
- mynediad i atal cwympiadau
- mynediad i wasanaethau ail-alluogi
- cefnogaeth i gynnal golwg a chlyw

Datblygu meysydd eraill sydd i'w cynnwys fel rhan o ganllawiau DAB a gyhoeddir yn flynyddol.

Rwy'n croesawu'r ffaith bod ymateb y Bwrdd Iechyd i'r Angen Gweithredu yma yn ymrwymo i gynnwys gwybodaeth am ansawdd bywyd yn ei Ddatganiad Ansawdd Blynyddol. Dylai hyn sicrhau bod gan bobl hŷn fynediad i wybodaeth berthnasol ac ystyrlon am yr ansawdd bywyd a

ddarperir gan gartrefi gofal, a bod pawb yn fwy agored a thryloyw ynghylch ansawdd cartrefi gofal ar draws Cymru.

Rwy'n cydnabod bod yr ymateb yn datgan nad oes mecanwaith ar hyn o bryd i gasglu na dadansoddi'r data angenrheidiol. Heb hyn, gallai diffyg tryloywder danseilio gallu pobl hŷn i wneud penderfyniadau priodol ac mae'n tanseilio hyder cyhoeddus ehangach yn y sector. Gan hynny, rwy'n croesawu'r ymrwymiad i ddatblygu fframwaith archwilio a fyddai'n fodd i'r darparwyr gasglu dangosyddion ansad bywyd a chyflwyno adroddiadau arnyn nhw. Mae'n dda gweld bod y Bwrdd Iechyd wedi ymrwymo i weithio gyda chyrff eraill fel AGGCC, awdurdodau lleol, Fforwm Gofal Cymru ac Age Cymru i sicrhau bod dull unffurf o weithredu yn cael ei ddatblygu.

Mae'r ymateb yn cynnwys amserlenni clir ar gyfer cwblhau'r camau a nodwyd, ac mae hefyd yn enwi unigolyn atebol i gyd-fynd â llwybr llywodraethu clir. Dylai eglurder y dull hwn ganiatáu i ansawdd ac effaith y gwasanaethau hyn, ac unrhyw newidiadau a wneir iddyn nhw, gael eu monitro'n ofalus gan y Bwrdd Iechyd.

## **Angen Gweithredu 7.3**

### **Casgliad Terfynol – Derbyniol**

7.3 Mae'r GIG yn gweithio â'r sector cartrefi gofal er mwyn ei ddatblygu fel rhan allweddol o'r llwybr gyrfa nyrsio, yn cynnwys darparu cefnogaeth datblygu proffesiynol a chymheiriaid llawn i nyrsys sy'n gweithio mewn cartrefi gofal.

Codais bryder mewn perthynas ag ymateb cychwynnol y Bwrdd Iechyd i'r Angen Gweithredu yma, sef nad oedd gwybodaeth ddigonol ar y cynllun clir y byddai'r Bwrdd Iechyd yn ei weithredu i ateb yr Angen Gweithredu yma. Heb hyn, mae yna risg barhaus y gall cartrefi gofal nyrsio gau oherwydd anawsterau i recriwtio nyrsys addas sydd â chymwysterau, neu fod pobl hŷn yn cael eu gosod mewn cartrefi gofal sy'n anaddas i fodloni eu hanghenion.

Rwy'n falch bod y Bwrdd Iechyd wedi ymateb i'r pryder yma trwy ddangos ymrwymiad clir i gefnogi darparwyr a staff i'w galluogi i gael mynediad i

hyfforddiant y GIG a chefnogaeth cymheiriaid. Mae'r Bwrdd Iechyd yn ymrwymo i ymestyn yr adnoddau datblygu proffesiynol presennol megis datblygu fframwaith arfarnu safonedig i nyrsys cofrestredig, ac ymestyn fforwm datblygu proffesiynol i'r gweithlu anghofrestredig. Rwy'n croesawu'r ffaith bod y Bwrdd Iechyd wedi ymrwymo i archwilio cyfleoedd ar gyfer dilyn gwaith mewn wardiau (ac fel arall) ac y bydd yn cwmpasu anghenion hyfforddi'r gweithlu cofrestredig ac anghofrestredig er mwyn datblygu strategaeth hyfforddi. Mae gan y camau yma y potensial i sicrhau bod gofal nyrsio o safon yn cael ei ddarparu a bod canlyniadau ansawdd bywyd i bobl hŷn mewn cartrefi nyrsio yn gwella.

Mae'r ymateb yn cynnwys amserlenni clir ar gyfer cwblhau'r camau a nodwyd, ac mae hefyd yn enwi unigolyn atebol i gyd-fynd â llwybr llywodraethu clir. Dylai eglurder y dull hwn ganiatáu i ansawdd ac effaith y gwasanaethau hyn, ac unrhyw newidiadau a wneir iddyn nhw, gael eu monitro'n ofalus gan y Bwrdd Iechyd.